Syniadau A.G.

Tymor yr Haf 2011 **Pris £1.00**

Sam Jesson, Ysgol Eyton,Wirfoddol dan reolaeth yr Eglwys yng Nghymru, Wrecsam

Mannau Sanctaidd

Mae 'Fframwaith Enghreifftiol Genedlaethol Addysg Grefyddol ar gyfer 3 -19 oed yng Nghymru yn cydnabod ' y gall plant, drwy weithgareddau ymarferol, atyniadol, integredig, ddysgu mwy amdanynt eu hunain, eraill a'r byd o'u cwmpas." Drwy edrych ar fannau sanctaidd, caiff plant yn y Cyfnod Sylfaen y cyfle i "ystyried pam fod pobl, yn cynnwys pobl grefyddol, yn gwerthfawrogi ac yn chwilio am amser creadigol, ysbrydoledig, amser o heddwch, tawelwch a datguddiad, sefyll yn ôl a rhyfeddu." Gall plant yng Ngyfnod Allweddol 2 "adnabod, archwilio, a myfyrio dros yr ochr ysbrydol i fywyd".



Rydym i gyd yn gyfarwydd ag adeiladau sanctaidd a'r profiadau gallant eu cynnig i blant; mae llawer o ysgolion, yn rheolaidd, yn cynnwys ymweliad â'u heglwys leol, fel rhan o themau a thestunau astudiaeth yn yr ysgol. Mae rhai testunau fel 'Mannau Addoli' neu ' y Gymuned' yn cynnig eu hunain yn rhwydd iawn i astudiaeth o adeilad sanctaidd a'r dodrefn ynddo.

Gall ymweliad â man sanctaidd hefyd gynnwys yr ardal y tu allan i'r adeilad. Yn aml tra yn canolbwyntio ar y tu mewn i adeiladau yn ystod ymweliad, neu i 'berfformio', mae pobl yn pasio heibio i'r hyn sydd y tu allan i'r adeilad. Gall rhywun ymweld â'r ardal y tu allan i adeilad sanctaidd fel rhan o astudio testun nad yw'n 'grefyddol' fel 'yr Amgylchedd' neu 'Deunyddiau' neu 'Pethau Byw'. Gellir defnyddio y mannau yma, un ai y rhai tu allan i'r eglwysi, capeli neu eglwysi cadeiriol i hybu dealltwriaeth y plentyn o heddwch, tawelwch, a'r angen sydd gan bawb – i gofio. Mae Mannau Sanctaidd yn llawn o gyfleon i gario allan arbrofion gwyddonol, mathemategol, datrys problemau, mesur gweithgareddau, arolygon hanesyddol, a datblygu sgiliau mapio tra yn rhoi y cyfle i'r plentyn i ddatblygu yn ysbrydol.



Defnyddiwch eich man sanctaidd

*Gellir addasu y gweithgareddau isod ar gyfer y Cyfnod Sylfaen neu GA 2

* Ymweld â'ch man sanctaidd lleol i benderfynu pa weithdy neu weithgaredd fydd yn siwtio

*Rhannwch y dosbarth i grwpiau i gwblhau amrywiol weithgareddu

* Un weithgaredd - 10 – 15 munud

Y Fynwent

Cadwch yn glir oddiwrth: dail poethion, ysgall, baw anifeiliaid
cerrig beddi sydd yn rhydd
Cadwch yn glir oddiwrth feddau newydd
Gweithgaredd 1 – Chwiliwch am enwau bechgyn a merched a chofnodwch hwy.
Gweithgaredd 2 – Chwiliwch am ddyddiadau (geni, marw, oed), ar y cerrig beddi.
Gweithgaredd 3 – Rhwbiadau o luniau / enwau diddorol
Gweithgaredd 4 – Tynnwch lun Croesau Celtaidd i ymchwilio i'r patrymau eto.
Gweithgaredd 5 – Chwiliwch a thynnwch luniau croesau o wahanol siâp
Gweithgaredd 6 – Beddi rhyfel – chwiliwch a recordiwch fanylion.

Coed a Phlanhigion

Gweithgaredd 1 – Mesurwch gwmpas y coed, mesurwch yr ardal lle nad oes dim yn tyfu o gwmpas y bonyn
Gweithgaredd 2 – Tynnwch lun gwahanol blanhigion – i wneud ymchwil ymhellach ymlaen
Gweithgaredd 3 – Gwnewch gasgliad o ddail, glesni (gwiriwch yn gyntaf)
Gweithgaredd 4 – Gwnewch siart ' Adnabod Planhigion' ar gyfer ymwelwyr..

Dyluniad a Dodrefn

Gweithgaredd 1 – Trafodwch beth sydd angen mewn lle sanctaidd i'r holl gymuned ei fwynhau. Gofynnwch i'r Ficer neu warden yr eglwys i ddod i siarad â'r plant. Gwnewch holiadur i gael gwybodaeth am bwy sydd yn defnyddio yr eglwys..

Gweithgaredd 2 – Dyluniwch ardd – tynnwch ei llun. Gwnewch restr o'r pethau
Gweithgaredd 3 – tynnwch lun o'r ardd. Oes yma rywbeth i bawb ?
Labelwch bopeth diddorol – e.e. cadeiriau, pistyll
Gweithgaredd 4 – Gwnewch ludwaith o ardd ddelfrydol ar gyfer y gymuned. Torrwch allan luniau o flodau, coed, meinciau ayyb o gylchgronnau a chatalogiadau .

Anifeiliad ac Adar
Gweithgaredd 1 –gwnewch gofnod o bob arwydd o fywyd yn yr ardal. Cymerwch luniau fel tystiolaeth.
Gweithgaredd 2 Beth welwch chi, glywch chi, aroglwch chi?
Gweithgaredd 3 – Byddwch yn dditectif. Chwiliwch am dystiolaeth ee. ôl traed,tyllau, niwed i goed

Deunyddiau
Gweithgaredd – Gwnewch fap o'r ardal. Cofnodwch y gwahanol ddeunyddiau ddefnyddiwyd ym mhob ardal a chrewch allwedd. Gwnewch flychau bychain o rwydi ym Mathemteg cyn yr ymweliad. Casglwch samplau o ddeunyddiau (bric,pridd,llechen ayyb) a labelwch y bocsys.

Pobl
Gweithgaredd– Pwy sydd yn ymweld â'r man yma? Oes gwybodaeth ar gael i ymwelwyr? Casglwch dystiolaeth a gwybodaeth i wneud poster/ pamphled. A ellir defnyddio y fan yma gan bobl o ffydd arall? Beth sydd angen ar yr ardal i'w wneud yn fwy atyniadol i ymwelwyr ? Gwnewch nodiadau i greu tudalen gwefan ar gyfer ymwelwyr.

Ffiniau
Cadwch yn glir o : ddail poethion,ysgall, cerrig beddi rhydd, brics, tyllau cwningod, **giat!!**
Defnyddiwch gynllun syml – enghraifft gyferbyn.
Gweithgaredd 1 – amlinellu map a chreu allwedd ee. ~~~ brics
planhigion
Gweithgaredd 2 – Tynnu llun deunyddiau a rhannau o'r ffiniau – golwg agos
Gweithgaredd 3 – Dod o hyd i gen y cerrig a'i adnabod.
Gweithgaredd 4 – Chwarae rôl - ymweliad swyddog iechyd a diogelwch



Ymwybyddiaeth o'r Amgylchedd
Gellir cario allan yr adolygiad yma fel gwethgaredd dosbath neu grŵp ochr yn ochr gyda gweithgareddau eraill ar fannau sanctaidd. Byddai yn dda cael aelod o'r eglwys i drafod ymatebion gyda'r plant. Efallai gallwch wahodd y ficer neu warden yr eglwys i ddod i'r ysgol i drafod gwelliannau a sut medrwch chi helpu ee. plannu yn y gwanwyn,tacluso yn yr hydref, syniadau am brosiectau, taflenni a phosteri.

Rhestr Wirio yr amgylchedd i'r ysgol at gyfer mynd i eglwysi. Nid oes raid i'r eglwys fod ar agor.		
YSBWRIEL 	Oe biniau yn yr adeilad a thu allan?	
	Oes digon o finiau? Faint?	
	Ydyn nhw yn y lle iawn? Ble?	
LLEIHAU GWASTRAFF 	Ydi papur yn cael ei gadw ar gyfer ailgylchu?	
	Ydi papur y cael ei ddefnyddio ar y ddwy ochr cyn ail gylchu?	
	Ydi blodau yn cael eu taflu neu eu compostio?	
YNNI R DŴR 	Ydi ynni adnewyddol yn cael ei ddefnyddio? Gwynt/Haul?	
	Ydi'r golau yn cael ei droi i ffwrdd mewn ystafell wag?	
	Ydi bylbiau arbed ynni yn cael eu defnyddio?	
	Ydi dŵr glaw yn cael ei ddefnyddio i ddyfrhau planhigion?	
	Ydi tapiau dŵr yn gollwng?	
MYNWENT 	Ydi'r fynwent yn rhydd o blaladdwyr?	
	Oes lle i bobl eistedd yn dawel, ac yn y cysod y tu allan i'r eglwys?	
	Oes rhannau o'r fynwent yn cael eu defnyddio yn 'naturiol' fel gweirglodd flodau?	
	Oes perth neu lwyn yna?	
	Oes bocs i'r adar yn y fynwent?	

Ardaloedd eraill i edrych arnynt os yw'r adeilad sanctaidd ar agor

TRAFNIDIAETH 	Ydi pobl yn cerdded neu feicio os yn bosibl?	
	Ydi pobl yn rhannu car?	
	Ydi ceir yn arbed tannwydd?	
	Ydi ceir yn ufuddhau i reolau nwyon llosg?	
	Ydi pobl yn prynu yn lleol er mwyn arbed costau teithio?	
BYW YN IACH 	Oes polisi ynglyn â gweinyddu bwyd / diod iach?	
	Oes byrbrydiau ffres(ee ffrwythau) ar gael yn hytrach na bisgedi?	
	Ydi'r staff yn cael dyddiau rhydd a gwyliau priodol?	
DINASYDDIAETH FYD_EANG 	Ydi'r eglwys yn cymryd rhan mewn materion y tu allan i'r pentref?	
	Ydi rhannau eraill o'r wlad a'r byd yn cael eu cynnwys yn y gweddiau?	
	Ydi coffi / te y Fasnach Deg ar gael ar ôl y gwasanaeth?	
	Ydi gweithgareddau y plant yn cynnwys rhywbeth am bobl o wledydd eraill?	

ADNODDAU MAGC (Mudiad Addysg Grefyddol Cymru)

Catalog Adnoddau, Cyhoeddiadau ac ôl gopiau o *'Syniadau AG'* ar gael.

Cyhoeddiadau Cynradd - *Pobl Arbennig ; Adegau Arbennig; Iesu ; Y Nadolig – o flwyddyn i flwyddyn; Mannau Arbennig*

NEWYDD – Cyfres Ymchwilio i Thema: *i Codau Byw; i Ddathliadau; i Gredoau* ac *i Gwestiynau Dyrys.*

NEWYDD yn SAESNEG *Amazing Lives* (ar gael yn Gymraeg – *Am ddawn* –Huw J Hughes)

Cyhoeddiadau Uwchradd – *What the Welsh Churches say on moral and social issues; Barn yr Eglwysi ar faterion moesol a chymdeithasol.*

Cyffredinol*: More than Just RE* (CEMW Annual Lectures)

Disgownt ar gael i ysgolion yn yr Awdurdodau sy'n cyfrannu ac i fyfyrwyr

Cysyllter â: Sali Roberts, MAGC, Patshyn, Rhiwgwreiddyn, Ceinws, MACHYNLLETH

SY20 9EX (Tel/Ffacs: 01654 - 761 697) e bost: sali@patshyn.fsnet.co.uk

© MAGC 2011